COFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CYNGOR TREF MACHYNLLETH

Wedi ei cynnal yn y Plas ar Ddydd Llun Hydref 26 2009

Presennol: Cllrs. D W Davies, B. Dunn; G Baldwin; E Hughes; S Rowlands; K Hubbard; M Williams; G Jenkins.

Hefyd yn Bresennol: J. H. Parsons – Clerk; M Biffin - Secretary

---

Cyn y cyfarfod gofynwyd I Mr John Parsons Clerc I CyngorTref Machynlleth agor yn swyddogol y ddarlithfa yr enw yw Darlithfa Humphreys and Parsons. Dadorchuddiodd y Clerc y plac a rhoddodd araith byr a diolchodd I CTM am yr anrhydedd a roddwyd iddo a'I deulu. Cyflwynwyd tusw o flodau I gymar Mr Parsons

5389 CT 26.10.09 **Ymddiheuriadau**

- Cyng. C Foster; S Nicholas; D Lewis; G Davies

5390 CT 26.10.09 **Cyflwyniad**

- Rhoddwyd gyflwyniad gan Mr John Mason o Trawsnewidiad Bro Ddyfi ynglyn a argyfwng olew ac effaith ar y dyfodol. Dywedodd Mr Mason bod 5% o egni byd-eang yn cael ei ddefnyddio mewn trafnidiaeth. Rhoddwyd llawer o ffaethiau a figurau I'r Cyngor – mae cyfarfod yn cael ei gynnal ar y trydydd Dydd Mercher bob mis yn y Llew Gwyn ac mae croeso I bawb. Diolchodd y Maer I Mr Mason am ei gyflwyniad addysgiadiol. Dywedodd Cyng Jenkins ei body n teimlo ddylsai pethau fel coginio a gwnio gael ei cyflwyno eto yn yr ysgolion. Dywedodd Cyng Williams dylsai partion gwleidyddol ddod at ei gilydd I addysgu bobl ifanc ac I hyrwyddo y trawsnewydiad – Cytunodd Cyng Dunn a dywedodd bod yn ymddangos mae cymunedau oedd yn ymglymedig a ddylsai'r atebiod ddod oddiwrth y Llywodraeth.

5391 CT 26.10.09 **Cofnodion**

Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor

- Dywedodd Cyng Jenkins bod y cofnodion ar y Wê yn dangos ei bod yn erbyn cyfnogi Tesco a bod hyn yn anghywir – Dywedodd Cyng Jenkins ei bod wedi cytuno I gefnogi y mwyafrif a gofynnodd fedrai Wê gael ei newid

5392 CT 26.10.09 **Busnes Stadurol**

- Cytunwyd ddylsai i ni ymgeisio am arian tuagat y Ganolfan Newydd
- Trafodwyd ddylsai y Ganolfan Newydd gael ei redeg gan Y Plas neu aros o dan ofal CTM – Dywedodd Cyng Jenkins bod yn gwneud synnwyr iddo gael ei redeg gan Y Plas ond dywedodd bod yn hanfodol I'r Cynghorwyr I gyd ofyn cwestiynau heb fod ofn atebolrwydd, yn enwedig ynglyn a'r gwariant – anghytunodd Cyng Baldwin a dywedodd ddylsai y Ganolfan Gymuned gael ei redeg gan CTM – Dywedodd Cyng Williams ei fod yn teimlo ddysai,r Ganolfan gael ei redeg gan y Plas ond yn ymateb I CTM – Dywedodd Cyng Dunn fyddai yn hoffi gweld mwy o ddiddordeb oddiwrth y Cynghorwyr os oeddynt eisiau bod yn rhan o redeg y Plas. Yr oedd Cyng Jenkins yn teimlo bod yn debyg bod rhaid mynd I'r Plas cyn cael cyfraniad ac oedd yn teimlo bod hyn ddim yn gywir – Teimlodd Cyng Dunn fod ei esboniad wedi cael ei gamddeallt a dywedodd ei fod eisiau mwy o Gynghorwyr fod yn ymglymedig, a rhoddodd engraifft o ddiffug diddordeb. Mi fydd Melanie Biffin a Petra Evans yn cael ei ystyried oherwydd mi fydd

yn effeithio ar gwaith y ddwy. Gwahoddwyd y Cynghorion eto I eistedd ar Panel y Plas ond oedd dim diddordeb oddiwrthynt. **Cytunwyd** fydd rhedeg ochr ariannol y Plas**,** ar Gymuned Newydd yn aros dan ofal y Plas tan Mawrth 31 2010.

5393 **Busnes y Maer**

CT 26.10.09 Fe roddodd y Maer ei adroddiad a dywedodd bod hi ddim wedi gallu bod yn bresennol mewn llawer ohonynt.

- Diolchodd y Maer I Cyng Dunn am fod yn bresennol yn ei lle yn y Lleng Frenhinol Brydeinig
- Diolchodd I'r dirprwy Faer am fod yn bresennol yn dathliad canmlwyddiant merched y "guides".
- Yn bresennol yn yr "OGI" fel aelod annibynnol I drafod amryw o bwnciau.
- Yn bresennol ar ddiwrnod agored Y Plas a dywedodd bod y bobl yn fodlon iawn gyda'r Neuadd newydd ac yr oedd y diwrnod yn llwyddiant.

5394 **Materion yw Codi**

CT 26.10.09

- Hawl Dramwy **(5388)** – llythyr CSP – Galwad ffôn oddiwrth Rab Jones a dywedodd fyddai yn ymweld ar man ac adrodd yn ôl
- Gweithdai **(5386)** – llythyr I'r Comisiwn terfynau
- Rhif o Gynghorwyr **(5383)** – llythyr i WAG – dim ateb
- Mamau Beichiog**(5380)** – llythyr I ymddiriedolaeth Hywel Dda – dim ateb **Cytunwyd** I yrru llythyr atgoffa.
- Angladd **(5386)** llythyr oddiwrth Heddlu Dyfed Powys – llythyr wedi ei yrru oddiwrth y Clerc.

5395 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyddredin**

CT 26.10.09 Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

- Mae'r fainc wrth Dovey Vision yn barod I gael ei symud. Yr oedd y gofalwr yn aros am gerbyd addas yw symud.
- **Cytunwyd** I roddi hysbyseb yn y Cambrian News I werthu y cadeiriau a'r gwresogydd – Dywedodd Cyng Rowlands ei bod wedi derbyn cwynion oddiwrth rai o breswylwyr oedd wedi gweld y byrddau yn cael ei distriwio a dylsai bod nhw wedi cael ei cynnig I'r preswylwyr – dywedodd y Clerc bod y byrddau yn ddifrodedig ond bod rhai ar ôl yn yr hen Neuadd os oedd rhywun a diddordeb. Dywedodd Cyng Jenkins ei bod wedi siarad gyda'r gofalwr a bod tua 250 o gadeiriau mewn cyflwr da yn yr hen Neuadd – Dywedodd Cyng Baldwin fe ddylen gael ei defnyddio yn y Neuadd newydd I arbed prês. **Cytunwyd** a dywedodd Cyng Dunn fe fyddai yn penderfynu faint oedd angen a dod a nhw I lawr I'r Plas.

5396 **Adroddiad Panel Iechyd**

CT 26.10.09 Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn. gan y Cyngor.

- E.bost wedi ei dderbyn. Dywedodd Cyng Rowlands ei bod yn bresennol yn un o'r galwadau ac oedd yn warthus bod gwasanaeth yr Ambiwlans yn dweud nag oeddynt a gwybodaeth or galwad allan – **Cytunwyd** I'r clerc ateb yr e.bost – Dywedodd Cyng Hubbard bod yn bechod nag oedd dim ymateb 1af yn awr yn Machynlleth.

5397 **Adroddiad Panel Cloc y Dref**

CT 26.10.09 Mae y cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor.

- Dywedodd Cyng Jenkins bod y cyfnod cyntaf or gwaith yn dechrau yn y trydydd wythnos o Tachwedd ac mi gymeryth tua 20 o wythnosau – Gofynnodd Cyng Baldwin be oedd y cyfnod cyntaf – dywedwyd fyddai hyn yn golygu gwaith ar y gwaith brics I atal y dwr ddod I mewn ac achosi difrod a mi fyddai hefyd yn golygu ychydig o waith tu mewn. Mi ddaru Cyng Baldwin longyfarch Cyng Jenkins am ei gwaith called.
- Dywedodd Cyng Jenkins bydd y gwaith yn parhau dros gyfnod y Nadolig, felly mi fydd raid I'r goeden Nadolig gael ei sefydlu rhywle arall. Awgrymodd Cyng Rowlands y tu allan I'r Ganolfan Gwaith a dywedodd ei bod wedi siarad gyda aelodau or Clwb Rotary ac yr oeddynt yn teimlo mae y fan honno fyddai orau – Dywedodd Cyng Williams ddylsai llawes parhaol gael ei suddo I'r ddaear I ddefnyddio yn y dyfodol – **Cytunwyd** I lythyr gael ei yrru I Adrian Jervis yn gofyn am ganiatâd – dywedodd Cyng Jenkins ddylem edrych I fewn I'r costau..

5398 Adroddiad Panel y Plas

CT 26.10.09 Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi ei derbyn gan y Cyngor.

- Gofynnodd Cyng Baldwin fyddai'r arwerthiant yn cael ei cynnal yn y Plas – Dywedodd Cyng Dunn bod llythyr wedi cael ei yrru I bawb oedd yn defnyddio'r hen Neuadd, yn rhoddi manylion a prisiau y Neuadd newydd, ac yr oedd yn aros I glywed oddiwrth J.H.Jones ynglyn a unrhyw arwerthiant yn y dyfodol.

.

5399 Adroddiad Cyng Sir – J.M.Williams

CT 26.10.09 Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi ei derbyn gan y Cyngor.,

- Dywedodd Cyng Williams bod canlyniadau y GCSE'S a gafwyd gan Ysgol Bro Ddyfi yn ardderchog – **cytunwyd** I yrru llythyr I'r Ysgol I longyfarch y disgyblion.

5400 Ceisiadau Cynllunio

CT 26.10.09

- P2009 1075 – Croeslyn, Ffordd Drenewydd – estyniad
- P2009 1015 – Ysgubor Wen, Ffordd Tanrallt – codi adeilad a tanc septig P2009 1112 – Clwb Bowlio Machynlleth – amnewydiad sied a storfa
- P2009 1103 – Tîr ger Llecyn Clyd, Ffordd y Garth – lein uwchben

5401 Datganiad Cyfrifon

CT 26.10.09 Mae cofnodion y Cyfrifon wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

Date		Chq No	Chq Drawn
28/09/2009	Colin Wilde	5155	£ 1,333.05
	Mark Rumbelow	5156	£ 360.95
29/09/2009	R A Gaskell	5157	£ 130.80
30/09/2009	Severn Trent Water	5158	£ 120.43
30/09/2009	Open Space Society - cancelled	5159	
30/09/2009	PCC - Rates on Community Centre	5160	£ 396.00
30/09/2009	B3 Architects	5161	£ 575.00
	Computersurgeon	5162	£ 60.00
06/10/2009	Mel Biffin	5163	£ 362.67
	R A Gaskell	5164	£ 120.77

13/10/2009	R A Gaskell	5165	£ 120.77
	Inland Revenue	5166	
20/10/2009	R A Gaskell	5167	£ 130.80
26/10/2009	PCC - Rates on Community Centre	5168	£ 396.00
	Scottish Power	5169	£ 61.23
	Miscellannea - Town Clock Display	5170	£ 56.70
	A Flemming - Plants for pots	5171	£ 250.00
	Elementary Signs - sign for lecture room	5172	£ 158.15
	Travis Perkins	5173	£ 29.93
	BT	5174	£ 114.98
			£4,778.23

5402 CT 26.10.09

Gohebiaethau

- Heddlu yn Penegoes - llythyr o breswylwr
- Amwythig - Reilffordd Aberystwyth
- Manylion Gwasanaeth dydd y Cofio
- Comisiwn Terfyn – Cyfarfod 3ydd Tachwedd – Y Clerc I siarad gyda Cyng Hughes
- Tesco – llythyr oddiwrth Dr Morpeth - llythyr oddiwrth breswylwr lleol ac e.bost oddiwrth Undeb Masnachwyr Bach – cyfarfod – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn copiau o lythyr a oedd wedi cael ei yrru I Meryl Lewis yn Caerdydd – Dywedodd y Clerc bod Ms Lewis wedi dweud ei bod yn byw yn Aberystwyth ac oedd yn teimlo bod Tesco ddim yn dealt anghenion Cymunadau Gwledig – dywedodd y Clerc bod hi ddim yn deg fod Mr Wil Lloyd wedi cael ei enwi yn yr adroddiad annibynnol – **cytunwyd** I yrru llythyr I Ms Lewis gyda copi I John Pearson o CSP ynglyn a defnyddio enw Mr Wil Lloyd heb ei ganiatâd – **cytunwyd** I ofyn I'r Ddirprwy Faer I fod yn cyfarfod Undeb y Masnachwyr Bach.
- Tai gall ei fforddio – llythyr yn gofyn am gyfle I roddi cyflwyniad I'r Cyngor – ysgrfennyddes wedi ei drefnu yn Ionawr
- Fforwm Ardal Gymuned Cyngor Sir Drefaldwyn – cyfarfod Tachwedd 17
- Ciosg ffôn goch – llythyr oddiwrth CSP
- Ymgymhoriad am newidiadau I ariannu Canolfanau Cymuned, cyfarfod 2ail Tachwedd
- Llywodraeth Leol LCO – e.bost o un llais Cymru
- Y Tabernacl – taflen newyddion
- Arolygu Cynghorau Plwyf
- Cynllun Datblygu Lleol Powys – Cymunedau cyntaf Bro Ddyfi – y Clerc I edrych I mewn I hyn
- Ceidwadwyr Drefaldwyn
- Cyfiethiad o Gofnodion CTM – llythyr oddiwrth Cilla Connor – **cytunwyd** i dalu am y gyfleustra.
- Byrddau hysbysebion – dymuniad oddiwrth Mrs Sedgwick – **cytunwyd** I godi Byrddau Hysbysebion y Dref a llythyr I'w yrru I Tydfil Adams, Pennaeth Llyfrgellydd yn Neuadd y Sir, yn gofyn os fedrwn roddi bwrdd ar y gwair y tu blaen I'r Llyfrgell yn Machynlleth.

5403 CT 26.10.09 **Rhifennau**

- Bwlch Agored
- Ymgyrch am Barc Genedlaethol
- Adroddiad Blynyddol Tai Cantref

5404 CT 26.10.09 **Unrhyw Fusnes Arall**

- Prawf Blancedi Trydan – dywedodd Cyng Jenkins bod rhai preswylwyr wedi bod yn gofyn am y Gwasanaeth – Dywedodd Cyng Williams dylsai lythyr gael ei yrru I Mr Steve Clinton Adran Safonaau Masnachu yn Neuadd y Sir – **cytunwyd –** Dywedodd Cyng Rowlands fuasai hithau hefyd yn siarad gyda Swyddog Tân yn Machynlleth.
- Tipio Anghyfreithlon – Dywedodd Cyng Dunn bod preswylwyr o Penegoes wedi cwyno am tipio anghyfreithlon yn mynediad y fynwent ar Ffordd Drenewydd
- Arwydd ar Ffordd y Garth – Dywedodd Cyng Rowlands bod 5 arwydd 30 f.y.a ar Ffordd y Garth ond oedd y preswylwyr lleol yn teimlo ddylsai'r gyflymder fod yn 20 f.y.a a dylsai hefyd bod golau strydoedd yn cael ei gosod. **Cytunwyd** I yrru llythyr I Adrian Jervis ynglyn a hyn.